

# Eglurhad o filiau ynni cartref wedi'i ddiweddaru

Taflen ffeithiau 98

16.01.13


[www.ofgem.gov.uk](http://www.ofgem.gov.uk)

Mae nifer o elfennau i fil nwy neu drydan eich cartref. Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y rhain, ynghyd â manylion am beth y gallwch ddisgwyl ei weld ar eich bil a sut y gallwch wneud arbedion.


## Beth sydd wedi'i gynnwys ar fil ynni arferol?

Isod ceir dadansoddiadau ar gyfer biliau nwy a thrydan. Maent yn adlewyrchu prisiau nwy a thrydan ym mis Rhagfyr 2012. £811 yw'r bil nwy cyfartalog ar gyfer cyfrif safonol a £531 ar gyfer trydan. Mae'r prisiau hyn yn seiliedig ar ffigurau defnydd blynyddol cyfartalog, wedi'u cyfartaleddu ar draws yr holl gyn-gyflenwyr, yr holl ddulliau talu a ledled Prydain Fawr.

Nwy



Trydan



Ynni cyfanwerthol, costau cyflenwi a maint elw

Taliadau dosbarthu

Taliadau trawsyrru

TAW

Taliadau amgylcheddol

Costau eraill

Mae'r biliau cyfartalog uchod yn seiliedig ar ddefnydd blynyddol cyfartalog o 3,300 kWh am drydan ac 16,500 kWh am nwy, wedi'u cyfartaleddu ar draws pob un o'r chwe chyflenwr mawr a ledled Prydain Fawr. Noder efallai na fydd y rhifau'n gwneud cyfanswm o 100% am fod y ffigurau wedi'u talgrynnu.

Elfen	% o'r bil nwy	% o'r bil trydan	Disgrifiad
<b>Ynni cyfanwerthol, costau cyflenwi a maint elw</b>	67%	58%	<p>Ynni cyfanwerthol: Cost y nwy neu'r trydan. Gall eich cyflenwr ynni brynu hwn ar y farchnad gyfanwerthol, neu bydd ganddo gontract â generadur. Mae rhai cyflenwyr hefyd yn rhan o gwmnïau sy'n cynhyrchu eu hynni eu hunain.</p> <p>Costau cyflenwi: Y costau sy'n gysylltiedig â rhedeg busnes gwerthu manwerthu, gan gynnwys gwerthiannau, bilio ac ati.</p> <p>Maint net: arwydd o'r proffidioldeb a wneir gan y cyflenwr. Gweler adroddiad wythnosol Ofgem ar Ddangosyddion y Farchnad Gyflenwi i gael y manylion diweddaraf: <a href="http://www.ofgem.gov.uk/Markets/RetMkts/rmr/smr/Pages/indicators.aspx">http://www.ofgem.gov.uk/Markets/RetMkts/rmr/smr/Pages/indicators.aspx</a></p>
<b>Taliadau dosbarthu</b>	16%	16%	<p>Costau adeiladu, cynnal a chadw a gweithredu'r pibelli nwy a'r gwifrau trydan lleol, sy'n cyflenwi ynni'n uniongyrchol i'ch cartref.</p> <p>Codir tâl ar gyflenwyr am hyn, ac maent yn trosglwyddo'r costau hyn yn y pris y maent yn ei godi arnoch am ynni.</p>
<b>Taliadau trawsyrru*</b>	2%	4%	<p>Costau adeiladu, cynnal a chadw a gweithredu'r rhwydweithiau trawsyrru nwy pwysedd uchel a thrydan foltedd uchel.</p> <p>Mae cwmnïau trawsyrru yn codi tâl ar ddefnyddwyr y rhwydweithiau hyn a chaiff y costau hyn eu trosglwyddo i gwsmeriaid manwerthu.</p>

**\*Mae Ofgem yn pennu system rheoli prisiau, sy'n cyfyngu ar gyfanswm y refeniw y gall cwmnïau dosbarthu a thrawsyrru ei ennill. Rydym yn defnyddio model rheoleiddio newydd, RIIO, i sicrhau'r gwerth gorau i chi, y cwsmer.**

<b>TAW</b>	5%	5%	<p>Treth ar werth.</p> <p>Fe'i telir yn uniongyrchol i Dollau EM gan y cyflenwr.</p>
<b>Costau amgylcheddol</b>	6%	11%	<p>Rhaglenni'r llywodraeth i arbed ynni, lleihau allyriadau a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd (gweler y dadansoddiad gyferbyn). Yn cynnwys cost rhaglenni cymdeithasol fel y Gostyngiad Cartrefi Cynnes.</p>
<b>Costau eraill</b>	4%	5%	<p>Costau ychwanegol yn cwmpasu mesuryddion (gosod a chynnal a chadw), storio nwy a chydbwyso'r system drydan.</p>

### Costau cyfanwerthol a maint elw'r cyflenwr

Yr un yw'r nwy a'r trydan a gaiff ei ddsbarthu i'ch cartref, ni waeth pwy yw eich cyflenwr.

Mae cyflenwyr yn prynu trydan a nwy naill ai gan y farchnad gyfanwerthol, neu'n uniongyrchol gan gynhyrchydd trydan neu nwy. Mae rhai cyflenwyr yn rhan o gwmnïau sydd â generaduron / cynhyrchwyr eu hunain.

### How suppliers source their energy

Caiff yr ynni a brynir gan gyflenwyr ei roi yn uniongyrchol i mewn i'r system drawsyrro. Bydd ynni'n symud o'r system drawsyrro i'r system ddsbarthu, ac yna i mewn i'ch cartref.

Cyfrifoldeb y cyflenwr yw sicrhau bod yr ynni y mae'n ei roi i mewn i'r system drawsyrro yr un fath â'r ynni y mae ei gwsmeriaid yn ei ddefnyddio.

### Costau ynni cyfanwerthol

Caiff cost prynu a chynhyrchu trydan a nwy ei ystyried wrth bennu pris eich ynni fesul uned a dyma yw'r rhan fwyaf o'ch bil.

Gall prisiau ynni cyfanwerthol a chost tanwydd ar gyfer cynhyrchu trydan newid yn aml. Caiff rhywfaint o ynni ei brynu ar y diwrnod, ond gellir prynu swm mawr ymhell ymlaen llaw. Cyfrifoldeb y cyflenwyr yw cydbwysu eu risg a gwneud y penderfyniadau prynu gorau posibl, yn seiliedig ar beth fydd eu hanghenion a'u costau yn y dyfodol yn eu barn hwy. Gelwir y broses hon yn 'rhagfantoli'.

Mae gwerth y caniatadau a fasnachir o dan Gynllun Masnachu Allyriadau yr Undeb Ewropeaidd (EU ETS) hefyd wedi cynyddu costau cynhyrchu pŵer. Mae'r Cynllun hwn yn rhoi pris ar lygredd a gaiff ei ollwng gan eneraduron trydan a diwydiant trwm ac adlewyrchir hyn yn awtomatig ym mhris cyfanwerthol y pŵer. Ein hamcangyfrif cyfredol yw bod y Cynllun yn ychwanegu rhwng £9 a £16 at bris cyfanwerthol y pŵer.

Bydd prynu ynni ymlaen llaw gan gyflenwyr yn tueddu i esmwytho'r costau ynni a drosglwyddir i gwsmeriaid. Mae hyn yn atal prisiau defnyddwyr rhag codi a gostwng mor aml. Mae prisiau cyfanwerthol yn newid bob dydd, ond yn y gorffennol mae cyflenwyr wedi bod yn newid prisiau manwerthu tua unwaith neu ddwywaith y flwyddyn.

### Costau a maint elw cyflenwyr

Mae cyflenwyr yn mynd i gostau o ganlyniad i filio, gwerthiannau, gwasanaethau cwsmeriaid a'r holl weithgareddau eraill sy'n rhan o fusnes manwerthu. Mae costau gwahanol hefyd yn gysylltiedig â chyflenwi mathau gwahanol o dariffau. Felly dylai'r pris y mae cyflenwyr yn ei godi hefyd adlewyrchu'r costau sy'n gysylltiedig â'r tariff penodol hwnnw. Mae cyflenwyr yn ystyried eu holl gostau (fel yr amlinellir yn ein dadansoddiad o fil), ac yna'n penderfynu ar strategaeth brisio, i gystadlu am gwsmeriaid yn y farchnad.

Mae Ofgem yn cyhoeddi adroddiadau ar y farchnad gyflenwi yn rheolaidd sy'n rhoi manylion am y berthynas rhwng costau ynni cyflenwyr a chostau cyflenwyr nad ydynt yn ymwneud ag ynni a'r prisiau cyfanwerthol. Yn dilyn ein Harchwiliad i Gyflenwad Ynni yn 2008, daethom â rheolau newydd i rym sy'n golygu bod yn rhaid i gyflenwyr gyhoeddi gwybodaeth ariannol ar wahân am gostau cyflenwi ac elw. Ym mis Awst 2012, gwnaethom gyhoeddi ein penderfyniad ar y newidiadau i'r Datganiadau Segmentol, sydd â'r nod o wella tryloywder y wybodaeth a'r gallu i gymharu cwmnïau. Paratowyd canlyniadau 2011 gan gyflenwyr o dan y canllawiau diwygiedig. I weld y canlyniadau ewch i: <http://www.ofgem.gov.uk/Markets/RetMkts/rmr/Documents1/Reporting%202011%20Results%20Overview%20text.pdf>

### Taliadau rhwydwaith

Mae Ofgem yn pennu system rheoli prisiau, sy'n cyfyngu ar gyfanswm y refeniw y gall cwmnïau'r rhwydwaith nwy a thrydan ei ennill.

Rydym yn amcangyfrif bod angen i'r cwmnïau hyn fuddsoddi dros £30 biliwn yn y degawd nesaf. Bydd hyn yn:

- uwchraddio ac adnewyddu rhwydweithiau nwy a thrydan Prydain
- cysylltu ffynonellau cynhyrchu ynni newydd
- gwella diogelwch cyflenwadau

Mae Ofgem wedi datblygu model rheoleiddio newydd: RIIO (Refeniw = Arloesedd + Cymhellion + Allbynnau).

Mae ein dull gweithredu newydd yn annog cwmnïau'r rhwydwaith i sicrhau bod cwsmeriaid a chynaliadwyedd wrth wraidd popeth a wnânt. Caiff cwmnïau eu gwobrwyo am fod yn effeithlon, yn arloesol ac am ymateb i anghenion cwsmeriaid. Caiff cwmnïau sy'n methu â bodloni'r disgwyliadau hyn eu cosbi drwy lai o refeniw.

Mae'r model hwn sy'n seiliedig ar berfformiad yn golygu y bydd cwsmeriaid, a fydd yn talu rhan fawr o gost y buddsoddiad, yn cael y buddsoddiad angenrheidiol am bris teg.

### Costau amgylcheddol

Mae'r llywodraeth wedi rhoi nifer o raglenni amgylcheddol ar waith. Mae'r rhain yn rhoi targedau i gwmnïau ynni ar gyfer lleihau allyriadau carbon. Nid ardollau wedi'u rhestru ar eich bil yw'r rhain, ond ar hyn o bryd maent yn costio tua £82 ar fil blynedd. Ond maent yn cael effaith ar y pris y mae cyflenwyr yn ei godi arnoch am eich trydan a nwy. Fodd bynnag, bydd rhai o'r rhaglenni hyn yn eich helpu i arbed arian ar eich bil.

Y rhaglenni hyn (a weinyddir gan Ofgem) yw:

**Rhwymedigaethau Cwmnïau Ynni (ECO):** Cymorth gan y Llywodraeth i hyrwyddo prosiectau trydan adnewyddadwy mawr yn y DU. Amcangyfrifa Ofgem mai cost y cynllun eleni yw £21 allan o'ch bil trydan (nid yw'r rhaglen hon yn effeithio ar eich bil nwy). Disgwylir i gost y cynllun hwn gynyddu ym mis Ebrill 2013.

**Y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy:** A Government support mechanism for promoting large scale renewable electricity projects in the UK. Ofgem's estimate is that the cost of this scheme this year is £21 out of your electricity bill (there is no impact on your gas bill for this programme). The cost of this scheme is expected to increase in April 2013.

**Tariffau Cyflenwi Trydan:** Yn cefnogi'r newid o systemau gwresogi olew a nwy i systemau cynaliadwy fel biodanwyddau, paneli thermol solar, pypiau gwres a gwres a phŵer cyfunedig adnewyddadwy. Mae Ofgem yn amcangyfrif bod y rhaglen hon yn costio llai na £6 allan o'ch bil trydan (nid yw'r rhaglen hon yn effeithio ar eich bil nwy).

### Sut y gallwch arbed arian ar eich biliau

Ni waeth pa gyflenwr, neu dariff sydd gennych, dylech allu gymryd camau i ostwng eich bil nwy neu drydan.

#### Dulliau Talu

YFallai y gallwch arbed arian ar eich biliau ynni drwy dalu'n byrdlon neu drwy ddewis talu drwy ddebyd uniongyrchol - mae dros hanner y defnyddwyr yn talu yn y ffordd hon. Siaradwch â'ch cyflenwr ynni ynghylch arbedion posibl. Mae Ofgem wedi cynhyrchu taflen ffeithiau gyda rhagor o wybodaeth am ddebydau uniongyrchol: [http://www.ofgem.gov.uk/Media/FactSheets/Documents1/direct\\_debit\\_leaflet\\_oct\\_2012\\_WEB.pdf](http://www.ofgem.gov.uk/Media/FactSheets/Documents1/direct_debit_leaflet_oct_2012_WEB.pdf)

#### Effeithlonrwydd Ynni

Gallech edrych ar fesurau effeithlonrwydd ynni, megis inswleiddio'r atig, neu gael boeler mwy effeithlon. Mae rhai o'r rhaglenni amgylcheddol rydych yn talu amdanynt drwy eich bil yn golygu y gall eich cyflenwr gynnig help a chyngor i chi. Felly manteisiwch ar hyn drwy ofyn i'ch cyflenwr beth y gall ei wneud i'ch helpu.

Mae gan rai cyflenwyr eu llinellau cymorth effeithlonrwydd ynni eu hunain. Gall yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni hefyd roi cyngor i chi ar effeithlonrwydd ynni: **0800 512 012**

Mae'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn lansio'r Fargen Werdd ym mis Ionawr 2013. Mae'r Fargen Werdd yn galluogi llawer o gartrefi a busnesau i wella effeithlonrwydd ynni eu heiddo. Mae'r cynllun hwn yn caniatáu i ddefnyddwyr dalu am rywfaifaint o'r gwelliannau neu'r gwelliannau i gyd dros amser drwy eu bil trydan. Am ragor o wybodaeth am y Fargen Werdd ewch i: <http://www.decc.gov.uk/assets/decc/11/tackling-climate-change/greendeal/6634-the-green-deal-a-new-way-to-pay.pdf>

#### Darlleniadau Mesurydd

Dylech ddarllen eich mesurydd yn rheolaidd, os yn bosibl. Bydd hyn yn sicrhau bod eich cyflenwr yn codi tâl arnoch am faint o ynni rydych wedi'i ddefnyddio mewn gwirionedd.

#### Ynni – Y Fargen Orau

Mae Ofgem a'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth wedi bod yn cydweithio ers 2008 i ddatblygu a rhoi cyngor i ddefnyddwyr drwy'r ymgyrch Ynni - y Fargen Orau.

Rydym wedi cynhyrchu cyfres o saith ffilm fer sy'n trafod negeseuon allweddol y cynllun - sut y gallwch leihau eich costau

ynni a pha help sydd ar gael gan gyflenwyr a'r Llywodraeth os ydych yn cael trafferth talu eich biliau ynni.

- chwilio am y fargen ynni orau
- sut i ddefnyddio ynni'n effeithlon
- osgoi dyled a datgysylltu
- delio â phobl sy'n gwerthu ynni
- sut i gwyno
- cael help gyda'ch biliau ynni
- mwy o arian yn eich poced - defnyddwyr yn sôn am yr arbedion y maent wedi'u gwneud diolch i Ynni - y Fargen Orau

Mae'r ymgyrch yn gweithio drwy roi cyflwyniadau ymarferol i ddefnyddwyr incwm isel a staff rheng flaen sy'n gweithio gyda phobl sydd mewn perygl o wynebu tlodi tanwydd. Mae ein partneriaid yn rhoi'r ymgyrch ar waith yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

I gael rhagor o wybodaeth am Ynni - y Fargen Orau, gan gynnwys gwybodaeth ysgrifenedig am sut i gael y fargen orau i gydweddu â'ch amgylchiadau, ewch i adran defnyddwyr gwefan Ofgem.

#### Newid cyflenwr neu dariff

Gallwch arbed arian ar eich biliau drwy newid cyflenwr. Os ydych am newid, gallwch ddefnyddio gwefan cymharu prisiau i weld pa fargeinion allai fod yn rhatach. Pan fyddwch yn gwneud hyn, sicrhewch fod gennych fil diweddar neu eich cyfriflen ynni flynyddol wrth law. Mae Ofgem yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr roi cyfriflenni ynni blynyddol i gwsmeriaid sy'n nodi'r ffeithiau allweddol am eu defnydd o ynni. Maent hefyd yn rhoi gwybodaeth bwysig am y fargen rydych wedi'i dewis ar hyn o bryd. Bydd defnyddio eich bil a'ch cyfriflen flynyddol yn eich helpu i wneud cymariaethau cywir ag unrhyw gynnig arall. Fodd bynnag, pe bai'n well gennych aros gyda'ch cyflenwr presennol, gallech siarad ag ef i weld a oes ganddo unrhyw dariffau rhatach na'r un rydych arno ar hyn o bryd.

Canfu ymchwiliad cyfredol Ofgem i'r farchnad cyflenwi ynni fod tua 900 o dariffau ar gael bellach, sy'n ei gwneud yn anodd i ddefnyddwyr eu cymharu. Rydym yn cynnig pecyn o ddiwygiadau i'w gwneud yn haws i bobl gymharu tariffau. Mae hyn yn cynnwys symleiddio tariffau i helpu defnyddwyr i wybod beth yw'r fargen orau iddynt hwy, rheolau er mwyn sicrhau bod cyflenwyr yn trin defnyddwyr yn deg a sicrhau bod y wybodaeth y mae cyflenwyr yn ei hanfon at ddefnyddwyr mewn fformat clir y gellir ei ddeall yn hawdd.

#### Ar gyfer ymholiadau gan y cyhoedd, cysylltwch â'r:

**Tim Materion Defnyddwyr**

020 7901 7295

e-bost: [consumeraffairs@ofgem.gov.uk](mailto:consumeraffairs@ofgem.gov.uk)

#### Ar gyfer ymholiadau gan y cyfryngau, cysylltwch â:

**Lydia Fitzpatrick, Uwch Reolwr Cyfathrebu**

020 7901 7419

e-bost: [lydia.fitzpatrick@ofgem.gov.uk](mailto:lydia.fitzpatrick@ofgem.gov.uk)

**Chris Lock, Uwch Swyddog y Wasg**

020 7901 7225

e-bost: [chris.lock@ofgem.gov.uk](mailto:chris.lock@ofgem.gov.uk)